# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 24 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau ar Gymunedau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd


## Cwestiynau ar Gymunedau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Partneriaethau Gostwng Troseddu

**C4 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waith y partneriaethau gostwng troseddu o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau a throseddau sydd yn gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru? (OAQ11652) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae nifer o'r partneriaethau gostwng trosedd ac anhrefn lleol yng Nghymru wedi nodi mai cymryd camau yn erbyn camddefnyddio sylweddau yw un o'u blaenoriaethau ac mae sawl enghraifft o arfer gorau. Caiff hyn hwb pellach gan gyllid newydd a gyhoeddwyd yn y gyllideb. Mae £220 miliwn ar gael dros dair blynedd i bartneriaethau lleol ar draws Cymru a Lloegr ar gyfer prosiectau i chwalu marchnadoedd cyffuriau lleol a mynd i'r afael â throseddau sydd yn gysylltiedig â chyffuriau. Bydd tua £12 miliwn o'r cyllid hwn yn dod i Gymru, ac mae £2.78 miliwn o hwnnw eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Defnyddir y cyllid hwn ar gyfer amrywiaeth o gamau y bydd y partneriaethau gostwng trosedd ac anhrefn lleol, comanderiaid rhanbarthol yr heddlu a thimau gweithredu cyffuriau ac alcohol i gyd yn cytuno arnynt, a dylai hyn gael cryn effaith.

*Atebwyd cwestiynau 5, 7 ac 8 yn y Cyfarfod Llawn. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl.*

### Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

**C9 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar grantiau cyfleusterau i'r anabl ac unrhyw newidiadau arfaethedig i arweiniad y Cynulliad yn y maes hwn? (OAQ11599)

**Edwina Hart:** Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl yn gymorth mawr tuag at gostau addasu cartrefi pobl anabl sydd â'r angen mwyaf. Mae arweiniad manwl eisoes ar gael ar gyfer awdurdodau lleol. Caiff hwn ei adolygu yng ngoleuni newidiadau arfaethedig i drefniadau adnewyddu'r sector preifat ac ymatebion i bapur ymgynghorol y Cynulliad 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru'.

### Codi Treth ar Dwristiaid

**C10 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnig y dylai awdurdodau lleol allu codi treth ar dwristiaid? (OAQ11605) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Diwygio Rheoliadau Adeiladu

**C11 Gareth Jones:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i drafod â Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r rheoliadau adeiladu er mwyn cynorthwyo datblygiad cynaliadwyedd wrth adeiladu eiddo preswyl newydd ac wrth wella hen eiddo? (OAQ11649)

**Edwina Hart:** Rhan L (Gwarchod Tanwydd ac Ynni) Rheoliadau Adeiladu 2000 yw'r unig ran sydd yn gallu cynorthwyo datblygiad cynaliadwyedd yn uniongyrchol. Byddai'n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol er mwyn ymestyn cylch gwaith y rheoliadau ymhellach. Bu rhan L yn destun adolygiad diweddar er mwyn cynyddu gofynion effeithlonrwydd ynni eiddo preswyl newydd a'r rhai sydd yn cael eu hadnewyddu.

Gan fod Llywodraeth y DU a'r Cynulliad yn dylanwadu ar arferion adeiladu cynaliadwy mewn ffyrdd eraill, nid oes gennyf gynlluniau i drafod diwygiadau pellach i Reoliadau Adeiladu 2000.

## Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu'r Cynghorau

**C12 Eleanor Burnham:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cynnwys mewn rheoliadau unrhyw amod ynghylch penodi aelodau o grwpiau'r gwrthbleidiau fel cadeiryddion pwyllgorau craffu'r cynghorau? (OAQ11656)

**Edwina Hart:** Dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, nid yw'n bosibl manylu ynghylch pwy ddylai gadeirio pwyllgorau arolygu a chraffu dan drefniadau gweithredol. Yn ein harweiniad i ran II y Ddeddf, byddaf, fodd bynnag, yn annog cynghorau i ystyried hyn.

Dan drefniadau eraill—y pedwerydd dewis, sydd yn well gan rhai awdurdodau efallai—mae'r sefyllfa yn wahanol. Ein rheoliadau ni fydd yn rheoli'r strwythurau yma. Byddant yn nodi y bydd yn rhaid i gadeirydd y prif bwyllgor craffu fod yn aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol i grŵp gwleidyddol cadeirydd y bwrdd, oni bai na chaiff grwpiau gwleidyddol eu datgan.

## Ceiswyr Lloches yng Nghymru (Trafodaethau)

**C13 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar drafodaethau ac unrhyw gyfathrebu arall a gafwyd rhyngddi a'r Swyddfa Gartref ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch ceiswyr lloches yng Nghymru? (OAQ11558)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i John Griffiths yn gynharach heddiw.

## Gweinyddu'r Cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf (Arweiniad)

**C14 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arweiniad a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u rôl yn y gwaith o weinyddu'r cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ11576)

**Edwina Hart:** Mae arweiniad ar gyfer y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cael ei ddatblygu gan ystyried yr ymatebion i'n hymarfer ymgynghori eang a chynhwysfawr. Bwriedir cyhoeddi hwnnw yn yr hydref.

Bydd yr arweiniad yn pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, wrth weithredu Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

## Safonau Ymddygiad (Cynghorau Bwrdeistref Sirol)

**C15 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch safonau ymddygiad a chynghorau bwrdeistref sirol? (OAQ11675)

**Edwina Hart:** Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn mynnu bod y Cynulliad yn gosod fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys mecanweithiau gorfodi newydd. Bydd yn rhaid i holl aelodau'r awdurdodau perthnasol gadw at god ymddygiad statudol.

Mae'r offerynnau statudol, a ddaw gerbron y Cynulliad gyda'r bwriad o'u rhoi mewn grym ar 28 Gorffennaf 2001, wedi eu rhoi ar y fewnrwyd.

**Trosglwyddo'r Stoc Dai**

**C16 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau'r weinyddiaeth yn ymwneud â throsglwyddo'r stoc dai? (OAQ11606)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ar 1 Tachwedd 2000 i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y mae copi ohono isod.

**Datganiad ar Drosglwyddo'r Stoc Dai**

Carwn gyflwyno datganiad gerbron y Pwyllgor ynghylch ein polisi ar bosibilrwydd trosglwyddo stoc dai awdurdodau lleol i'r sector landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Yn gyntaf oll, hoffwn egluro, er gwaethaf canfyddiadau i'r gwrthwyneb, na fu hi erioed yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i bwyso ar awdurdodau lleol i drosglwyddo eu stoc dai i'r sector landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ein prif bryder yw cyflwr gwael tai cymdeithasol Cymru a gwn fod holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn rhannu'r pryder hwn.

Mae buddsoddiad annigonol dros nifer o flynyddoedd yn golygu bod nifer o deuluoedd yng Nghymru'n byw mewn tai sy'n disgyn yn is na'r hyn y dylid ei ddisgwyl yn yr unfed ganrif ar hugain—cartrefi sydd yn aml mewn ardaloedd sy'n dioddef lefelau uchel o amddifadedd a lle mae'r amgylchedd o'u cwmpas yn dirywio yn sgîl blynyddoedd o esgeuluso.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anfanteision cymdeithasol ac mae'n flaenoriaeth uchel gennym. Mae gwella amodau byw yn hollbwysig i'r perwyl hwn. Dylai fod gan bawb yr hawl i gartref sy'n bodloni safonau modern sylfaenol. Mae'n rhoi balchder i bobl a sylfaen iddynt allu adeiladu eu hyder arni. Y broblem sy'n ein hwynebu yw'r cyllid anferthol sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o atgyweiriadau a gwelliannau. Yn ôl amcangyfrif ceidwadol, dros £750 miliwn fyddai cost hynny.

Yr wyf yn falch imi allu cynyddu'r cyfalaf tai yn fy nghynigion cyllideb drafft gan wyrdroi patrwm y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni barhau i fod yn realistig mewn wrth ystyried a fyddai'r awdurdodau yn gallu ariannu buddsoddiad o'r fath ac a fyddai'r Cynulliad mewn sefyllfa i'w cefnogi yn y dasg hon pan fo cymaint o alw am adnoddau. Nid yw'r broblem am ddiflannu a gallai waethygu os na fydd lefelau'r buddsoddiad yn ddigon i allu ymdrin â'r gyfradd ddirywio.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phroblemau ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a llawer ohonynt yn stadau cyngor. Efallai y bydd rhaid i ni edrych ar y blaenoriaethau ar gyfer dyrannu adnoddau. Mae angen i ni archwilio pob opsiwn sydd ar gael.

Yn syml, dim ond un o'r opsiynau hyn yw trosglwyddo stoc. Mae opsiynau eraill hefyd. Wrth reswm, gall cynghorau gadw eu tai cymdeithasol a pharhau i fuddsoddi'n gymedrol mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. Rydym yn gwneud ein gorau glas i'w cefnogi yn hyn o beth drwy'r cymhorthdal cyfrif refeniw tai. Byddaf hefyd yn ymgynghori ar bosibilrwydd cyflwyno lwfans atgyweiriadau mawr i'r cyfrif refeniw tai fel rhan o'r ymgynghoriad ar y strategaeth dai genedlaethol. Mewn rhai ardaloedd, efallai y bydd y fenter cyllid preifat yn briodol i ddelio â rhai problemau.

Efallai y bydd rhai awdurdodau lleol yn gallu moderneiddio eu stoc gyda'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, mewn awdurdodau eraill y gwir amdani yw y byddant yn ei chael hi'n anodd darparu tai cyngor teilwng sylfaenol heb orfod torri'n ôl yn ddifrifol ar wasanaethau eraill.

Yr wyf yn awyddus heddiw i egluro bod ein polisi yw annog awdurdodau lleol i wella'r stoc tai cyngor ym mha bynnag ffordd sy'n addas yn eu tyb hwy. *Nid*, ac rwy'n pwysleisio *nid,* eu hannog i drosglwyddo eu holl stoc i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Yr wyf yn deall y rhesymau pam mae'r Pwyllgor yn teimlo bod angen comisiynu adolygiad polisi o drosglwyddo'r stoc dai. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth sy'n galluogi awdurdodau i fynd ar drywydd y broses hon wedi ei sefydlu ac felly rydym ni, fel Llywodraeth Cymru, wedi ein rhwymo i ddarparu canllawiau am y broses. Mae'r canllawiau hyn yn cael eu paratoi ar hyn o bryd a gobeithiwn eu cyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Yr wyf fi a'm swyddogion yn fodlon cyfrannu at adolygiad y Pwyllgor o bolisi trosglwyddo'r stoc dai a byddaf yn barod i ystyried ei ganfyddiadau pan gyhoeddir ei gasgliadau.

**Ceiswyr Lloches yng Nghymru (Darpariaeth)**

**C17 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer ceiswyr lloches yng Nghymru? (OAQ11553)

**Edwina Hart:** Rhoddais ddatganiad ar 22 Mai.

**Clwy'r Traed a'r Genau (Cyfarwyddyd ar Geisiadau am Iawndal)**

**C18 Nick Bourne:** A fydd swyddogion y Gweinidog yn rhoi cyfarwyddyd pellach i'r awdurdodau lleol sydd yn delio â cheisiadau am iawndal, gan gynnwys gostyngiadau mewn trethi busnes, gan fusnesau sydd wedi'u heffeithio gan glwy'r traed a'r genau? (OAQ11613)

**Edwina Hart:** Na fyddant. Cymeradwyodd y Cynulliad y cyngor a roddwyd i awdurdodau lleol ynghylch sut y gallent ddefnyddio'r grant arbennig ar 5 Ebrill. Mae'r cyngor hwnnw'n rhoi cymaint o hyblygrwydd ag yr oeddent ei eisiau, er mwyn eu galluogi i ddosbarthu'r arian mor gyflym â phosibl i'r busnesau hynny y mae ei angen arnynt fwyaf.

**Cyfarwyddyd ar Ddyrannu Tai Cyngor**

**C19 David Lloyd:** A oes cynlluniau ar y gweill i adolygu'r cyfarwyddyd a roddwyd i'r awdurdodau lleol ar sut i ddyrannu tai cyngor? (OAQ11567) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Polisi Tai (Adeiladwyr y Sector Preifat)**

**C20 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y polisïau sydd yn ymwneud â thai mewn perthynas ag adeiladwyr yn y sector preifat? (OAQ11660)

**Edwina Hart:** Nid yw'r Cynulliad yn dylanwadu'n uniongyrchol ar weithgareddau adeiladwyr y sector preifat, ar wahân i arweiniad cynllunio sydd yn ymwneud â dyrannu tir ar gyfer tai. Er gwaethaf hynny, mae'r diwydiant adeiladu tai yn bartner pwysig i'r Cynulliad o ran dilyn ei amcanion ar gyfer adfywio cymunedol a chynaliadwyedd hirdymor, ac mae ei weithgareddau'n cael cryn effaith ar fywydau pobl Cymru.

Ni ddatganolwyd materion ansawdd, fel a bennir gan reoliadau adeiladu, a gwarantau tai newydd.

O bryd i'w gilydd, mae'r Cynulliad yn derbyn cwynion gan berchnogion tai ynghylch diffygion mewn tai newydd. Mae'r Gyfarwyddiaeth Dai yn gweithio gyda darparwyr gwarantau a'r Llywodraeth i dynnu sylw at gwynion o'r fath a nodi unrhyw oblygiadau polisi ehangach a allai ddod i'r wyneb yn eu sgîl.

**Trefniadau ar gyfer Cynorthwyo Ceiswyr Lloches**

**C21 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer cynorthwyo ceiswyr lloches yng Nghymru? (OAQ11559)

**Edwina Hart:** Rhoddais ddatganiad ar 22 Mai.

**Cyfarfodydd Cyhoeddus Cabinetau'r Cynghorau**

**C22 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu canlyniad yr ymgynghori ar reoliadau i ddatgan y dylai cyfarfodydd cabinetau'r cynghorau yng Nghymru gael eu cynnal yn gyhoeddus? (OAQ11650)

**Edwina Hart:** Adlewyrchir y canlyniad yn y rheoliadau drafft sydd bellach ar fewnrwyd y Cynulliad. Maent yn galw ar gyfarfodydd cabinet awdurdodau lleol i gael eu cynnal yn gyhoeddus, yn amodol ar eithriadau cyfredol yn rhan V Deddf Llywodraeth Leol 1972. Ni fydd hyn yn atal cabinetau rhag cwrdd yn anffurfiol i drafod neu dderbyn briffiau.

**Adfywio'r Cymunedau Amaethyddol a Thwristiaeth**

**C23 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau ar gyfer helpu i adfywio'r cymunedau hynny yng Nghymru sydd yn dibynnu'n drwm ar amaethyddiaeth a thwristiaeth, ac sydd wedi eu heffeithio'n wael gan glwy'r traed a'r genau? (OAQ11610)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad wedi paratoi pecyn eang o fesurau er mwyn darparu cymorth ar unwaith. Yn y tymor hwy, mae grŵp gorchwyl a gorffen partneriaeth wledig Cymru ar effaith clwy'r traed a'r genau yn ystyried strategaethau sydd yn cael eu paratoi gan wahanol sectorau ar gyfer dychwelyd yr economi wledig at sefyllfa gadarn.

**Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**

**C24 Val Feld:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y gwaith y mae'r Cynulliad wedi'i wneud hyd yma ar Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ11676)

**Edwina Hart:** Byddaf yn cyhoeddi pa gymunedau fydd yn rhan o'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Bryd hynny, gwahoddir awdurdodau lleol i ymgeisio am arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau. Mae arweiniad ar gyfer y rhaglen yn cael ei ddatblygu. Bwriedir cyhoeddi hwn yn yr hydref.

**Cymorth i Geiswyr Lloches yng Ngharchar Caerdydd**

**C25 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cymorth i'r ceiswyr lloches sydd yn cael eu cadw yng ngharchar Caerdydd ar hyn o bryd? (OAQ11560)

**Edwina Hart:** Rhoddais ddatganiad ar 22 Mai.

**Dyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru**

**C26 Eleanor Burnham:** Pryd y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd deddfwriaeth yn cael ei dwyn ymlaen ar symud dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yng Nghymru? (OAQ11653)

**Edwina Hart:** Bwriadaf gyflwyno Gorchymyn i'w ystyried mewn Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf.

### Rhoi Cymunedau'n Gyntaf (Amserlen Gweithredu)

**C27 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu rhaglenni Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ11564) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rôl yr Archwilwyr Mewnol o fewn Llywodraeth Leol

**C28 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch rôl yr archwilwyr mewnol o fewn llywodraeth leol? (OAQ11555) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Moderneiddio Llywodraeth Leol (Adroddiad Cynnydd)

**C29 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog adroddiad cynnydd ar foderneiddio llywodraeth leol yng Nghymru? (OAQ11655) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Codiadau mewn Trethi Cyngor

**C30 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar godiadau diweddar mewn trethi cyngor yng Nghanol De Cymru? (OAQ11569) [W]

**Edwina Hart:** Cyfeiriaf at yr ateb a roddais i David Melding ar 5 Ebrill 2001 (OAQ10905).

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Diogelwch a Chyfyngiadau ar Ffyrdd Cymru

**C6 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiogelwch, a'r cyfyngiadau ar ffyrdd Cymru? (OAQ11607)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Lluniais fwrdd strategaeth diogelwch ar y ffyrdd yr hydref diwethaf i ddatblygu rhaglen weithredu ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. Cynhyrchodd y bwrdd ddogfen ymgynghorol ddrafft, a oedd yn trafod pob agwedd o ddiogelwch ar ffyrdd a chyfyngiadau cyflymder. Trafodwyd y ddogfen yng nghyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 4 Ebrill. Yn dilyn sylwadau defnyddiol gan aelodau, trafodwyd y ddogfen mewn cynhadledd ymgynghorol lwyddiannus yn Llandrindod ar 15 Mai. Caiff y ddogfen ei mireinio mewn perthynas â'r sylwadau a wnaethpwyd yn y gynhadledd a chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ehangach yn yr haf.

### Cyfyngu ar Wastraff mewn Safleodd Tirlenwi

**C7 Geraint Davies:** Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i gyfyngu ar ganran y gwastraff sydd yn mynd i safleoedd tirlenwi? (OAQ11658) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Buddsoddi mewn Trafnidiaeth yng Nghymru (Adroddiad Cynnydd)

**C8 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar fuddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru? (OAQ11589) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Symleiddio'r Broses Gynllunio (Ffermydd Gwynt Alltraeth)

**C9 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy' diwygiedig symleiddio'r broses gynllunio ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth? (OAQ11633)

**Sue Essex:** Mae'r broses caniatáu ffermydd gwynt alltraeth yn gymhleth. Fe'ch cyfeiriaf at WAQ9768 a WAQ9769 am ragor o fanylion. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Adran Masnach a Diwydiant ddogfen ymgynghorol a oedd yn cynnig defnyddio adran 36 Deddf Trydan 1989 fel mecanwaith ar gyfer symleiddio'r broses caniatáu ffermydd gwynt alltraeth. Daeth yr ymarfer ymgynghori i ben ar 23 Ebrill ac mae'r Cynulliad a'r Adran Masnach a Diwydiant yn ystyried y sylwadau ar hyn o bryd.

Bydd adolygiad manwl o 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy', sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn ystyried y goblygiadau cynllunio gofodol sydd yn gysylltiedig â datblygu pob ffynhonnell ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gan gynnwys cynigion ffermydd gwynt alltraeth. Swyddogaeth y nodyn cyngor technegol fydd darparu'r sail cynllunio ar gyfer asesu cynigion ffermydd gwynt alltraeth yn hytrach na'r mecanweithiau a fydd yn symleiddio'r broses ganiatáu.

### Datblygu Ynni Adnewyddadwy (Cymorth Polisïau Cynllunio)

**C10 Helen Mary Jones:** Pa gymorth all polisïau cynllunio yng Nghymru eu cynnig ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy? (OAQ11626)

**Sue Essex:** Egwyddor ganolog y polisi cynllunio sydd yn 'Polisi Cynllunio Cymru' yw hybu datblygu ynni adnewyddadwy pryd bynnag y bo hynny'n economaidd ddeniadol ac yn amgylcheddol dderbyniol. Mae hyn yn ffurfio elfen bwysig o amcanion 'Polisi Cynllunio Cymru' i hyrwyddo economi wledig gryf ac amrywiol, cymunedau gwledig cynaliadwy a chefn gwlad deniadol sydd yn ecolegol gyfoethog ac sydd ar agor i bawb.

Yr wyf wedi rhoi cychwyn ar adolygiad manwl o 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy', fel a amlinellwyd yn flaenorol yn WAQ9774, a fydd yn ystyried y goblygiadau cynllunio sydd yn gysylltiedig â datblygu pob ffynhonnell ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Nid swyddogaeth y system gynllunio yw gosod cyfyngiadau dianghenraid ar ddatblygiad, yn hytrach, gellir yn aml integreiddio cadwraeth a datblygu yn llawn. Bydd y nodyn cyngor technegol yn ceisio cysoni'r galwadau anghyson hyn drwy ystyried ffactorau lleoliad a dylunio sydd yn gysylltiedig â thechnolegau amrywiol ynni adnewyddadwy.

### Grantiau Cyfalaf ar gyfer Datblygu Ffermydd Gwynt Alltraeth

**C11 Eleanor Burnham:** Pa grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer datblygu ffermydd gwynt alltraeth o amgylch Cymru? (OAQ11677) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd.***

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Bydd datblygiadau gwynt alltraeth yng Nghymru yn gymwys i dderbyn cyllid gan raglenni'r DU a rhaglenni Cymru yn unig.

O ran cyllid y DU, cyhoeddodd y Prif Weinidog y llynedd raglen £39 miliwn o grantiau cyfalaf i gefnogi datblygu adnoddau gwynt alltraeth y DU. Ar ben hynny, cyhoeddodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd y byddai £50 miliwn yn cael ei wario ar wynt alltraeth, cnydau ynni a phrosiectau gwresogi biomas ar raddfa fach yng Nghymru ac yn Lloegr. O'r arian hwn, caiff o leiaf £10 miliwn ei ddyrannu i wynt alltraeth.

Yng Nghymru, bydd y rhaglen Amcan 1 yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu diwydiant ynni adnewyddadwy a allai gynnwys agweddau ar ddatblygiadau gwynt alltraeth. Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gwahodd grwpiau i ddangos bod ganddynt ddiddordeb yn hyn o beth.

**Compostio fel Rhan o'r Strategaeth Wastraff**

**C12 John Griffiths:** Pa gamau a gymerir i ddatblygu ymhellach compostio yng Nghymru fel rhan o'n strategaeth wastraff? (WAQ11661)

**Sue Essex:** Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi papur ymgynghorol ym Mehefin ar strategaeth wastraff ddrafft ar gyfer Cymru. Bydd y ddogfen yn cynnig swyddogaeth sylweddol i gompostio i leihau maint y gwastraff bioddiraddadwy bwrdeistrefol sydd yn cael ei gladdu. Mae'r Cynulliad yn gweithio'n agos â chyrff eraill fel y Gymdeithas Gompostio a'r rhaglen weithredu gwastraff ac adnoddau er mwyn sefydlu safonau priodol ar gyfer compost a datblygu marchnadoedd.

**Datblygu'r Rhwydwaith Rheilffyrdd**

**C13 Peter Law:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog datblygiad y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru? (OAQ11596)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi cwrdd â'r Awdurdod Rheilffordd Strategol, Railtrack a Swyddfa'r Rheolydd Rheilffyrdd ar sawl achlysur er mwyn tanlinellu ein hymrwymiad i weithio gyda nhw i gyflawni ein dyheadau am wasanaethau rheilffordd o safon uwch, dibynadwy a chyfforddus yng Nghymru. Gosodais y dyheadau hyn yn 'The Assembly Vision for Rail Sevices in Wales and the Borders: A Guide for Franchise Bidders' fel y byddai modd eu hystyried yn y negodiadau ar gyfer masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau.

Yn y cyfamser, yr wyf wedi cyhoeddi rhaglen fuddsoddi fawr dros y pum mlynedd nesaf, fel rhan o'r rhaglen grant trafnidiaeth, er mwyn darparu'r seilwaith angenrheidiol yn sylfaen i'r dyheadau hyn am wasanaethau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys ailagor lein Bro Morgannwg i draffig teithwyr ac ehangu lein Stryd y Frenhines, Bro Taf, Cyffordd Dyfi a Rhymni.

Mae fy swyddogion hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, cwmnïau gweithredu trenau a Railtrack er mwyn hybu datblygu cynlluniau eraill y byddai modd eu hystyried gan y Cynulliad a'r Awdurdod Rheilffordd Strategol ar gyfer cyllid. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gorsafoedd ychwanegol ar lwybrau allweddol ac ailagor lein Glyn Ebwy.

**Prosiect Afon Pelena**

**C14 Gwenda Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ymestyn Prosiect Afon Pelena i afonydd eraill Cymru? (OAQ11590)

**Sue Essex:** Mae prosiect Afon Pelena yn ceisio trin afon sydd wedi ei llygru gan orlifoedd o hen byllau glo drwy ddefnyddio gwelyau o gyrs. Sefydlwyd rhaglen wella i fynd i'r afael â llygredd dŵr o hen byllau glo eraill yng Nghymru. Mae hon yn seiliedig ar y rhestr o flaenoriaethau o achosion difrifol o ddŵr o byllau glo yn llifo i afonydd y mae angen eu trin. Fe'i datblygwyd yn 1996 a chytunwyd y byddai Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Glo yn ei diweddaru. Mewn achosion priodol, caiff y dulliau sydd ar brawf ym mhrosiect Afon Pelena eu defnyddio.

**Marwolaethau ar Ffyrdd Cymru yn 2000**

**C15 David Melding:** Faint o gerddwyr a laddwyd ar ffyrdd Cymru y llynedd a hyd yma eleni, lle bo ffigurau ar gael? (OAQ11657)

**Sue Essex:** Lladdwyd 37 o gerddwyr ar ffyrdd Cymru y llynedd, gan gynnwys data dros dro ar gyfer ardal Heddlu De Cymru. Ar gyfer 2001, derbyniwyd data dros dro ar gyfer cyfnod o fis Ionawr i fis

Mawrth ar gyfer ardaloedd Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gwent ac mae'n dangos bod chwech o gerddwyr wedi eu lladd.

**Effaith Amgylcheddol Clwy'r Traed a'r Genau**

**C16 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith amgylcheddol clwy'r traed a'r genau? (OAQ11646) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gosod Goleuadau Traffig ar Gyffordd 45 yr M4**

**C17 Gwenda Thomas:** Beth fydd manteision gosod goleuadau traffig ar gyffordd 45 traffordd yr M4 i Ben Uchaf Cwm Tawe a Chwm Aman, o ran cynnydd mewn buddsoddiad? (OAQ11591)

**Sue Essex:** Bydd gosod arwyddion yn golygu y bydd y gyffordd yn gallu ymdopi'n well â cherbydau a bydd hynny'n lliniaru problemau traffig gan ddwyn budd cyfatebol i'r economi a'r ansawdd bywyd mewn ardaloedd gerllaw, gan gynnwys Pen Uchaf Cwm Tawe a Chwm Aman.

**Allyriadau Ymbelydrol (Canllawiau ar Fonitro)**

**C18 Jocelyn Davies:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu rhoi canllawiau diwygiedig i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer monitro allyriadau ymbelydrol? (OAQ11630) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Glöyn Byw Brith Perladeiniog**

**C19 Glyn Davies:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog drafod y glöyn byw brith perladeiniog gyda Chadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru? (OAQ11640)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd â chadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru i drafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cadwraeth bioamrywiaeth.

**Effaith Cnydau GM ar Fioamrywiaeth**

**C20 Eleanor Burnham:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru mewn perthynas ag effaith cnydau a addaswyd yn enetig ar fioamrywiaeth? (OAQ11669)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi trafod cnydau a addaswyd yn enetig gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd yw corff ymgynghorol statudol y Cynulliad ynghylch effaith y treialon GM.

**Gostwng Defnydd Safleoedd Tirlenwi ar gyfer Gwaredu Gwastraff**

**C21 Peter Black:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn ystyried eu cyflwyno i ostwng y gwastraff sydd yn cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru? (OAQ11594)

**Sue Essex:** Bwriadaf gyhoeddi papur ymgynghorol ym mis Mehefin ar strategaeth wastraff ddrafft ar gyfer Cymru. Bydd yn cynnwys cynigion ar gyfer lleihau maint y gwastraff sydd yn mynd i safleoedd tirlenwi drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i leihau gwastraff, ailgylchu a chompostio.

**Ailgylchu Gwastraff Tŷ**

**C22 Pauline Jarman:** Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu cyfran y gwastraff tŷ a ailgylchir? (OAQ11622) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Clwy'r Traed a'r Genau (Sgîl-effeithiau Hirdymor)

**C23 Nick Bourne:** A fydd asesiad yn cael ei gynnal o sgîl-effeithiau amgylcheddol hirdymor posibl clwy'r traed a'r genau? (OAQ11643)

**Sue Essex:** Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau lleol wrthi'n monitro'r effeithiau amgylcheddol o gwmpas safleoedd claddu, a bydd y canlyniadau'n helpu i asesu sgîl-effeithiau clwy'r traed a'r genau ar yr amgylchedd. Byddaf i a'm cyd-Aelodau yn y Cabinet eisiau sicrhau ein bod yn dysgu cymaint â phosibl o ddigwyddiadau'r wythnosau diwethaf, gan gynnwys yr effeithiau amgylcheddol.

### Neilltuo'r Defnydd o Dir mewn Cynlluniau Datblygu Unedol

**C24 Janet Davies:** A yw'r Gweinidog yn ystyried gwneud 'tai y gellir eu fforddio' yn un o'r meini prawf ar gyfer neilltuo'r defnydd o dir mewn cynlluniau datblygu unedol? (OAQ11637) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Parthau Cyflymder mewn Ardaloedd Dinesig

**C25 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses o bennu parthau cyflymder 20 milltir yr awr mewn ardaloedd dinesig? (OAQ11597)

**Sue Essex:** Mae gan awdurdodau lleol eu pwerau eu hunain i gyflwyno parthau cyflymder 20 milltir yr awr mewn ardaloedd dinesig sydd yn briodol yn eu barn hwy. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir nifer fawr o blant, fel o gwmpas ysgolion.

### Lleihau Gwastraff

**C26 Pauline Jarman:** Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i leihau gwastraff? (OAQ11623) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datganiadau Effaith Iechyd (Datblygiadau Dibreswyl)

**C27 Gareth Jones:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno datganiadau effaith iechyd ar gyfer pob datblygiad dibreswyl? (OAQ11615) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Mynediad i Gefn Gwlad (Trafodaethau)

**C28 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y trafodaethau a gafodd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a Bwrdd Croeso Cymru mewn perthynas â mynediad i gefn gwlad a'r defnydd o gefn gwlad ar gyfer amaeth a thwristiaeth? (OAQ11668)

**Sue Essex:** Yr wyf fi a'm swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd ag amrywiaeth mawr o fudiadau yng Nghymru ynghylch mynediad i gefn gwlad yn ystod sefyllfa bresennol clwy'r traed a'r genau. Yr wyf wedi cymeradwyo cyhoeddi arweiniad ymarferol cynhwysfawr ar gyfer awdurdodau lleol a grwpiau perthnasol eraill ar gamau i ailagor llwybrau pan fydd modd gwneud hyn yn ddiogel. Yn gyffredinol mae hyn wedi derbyn croeso cynnes, gan gynnwys gan y mudiadau hynny yr ydych yn cyfeirio atynt, a chymerir camau cadarnhaol ledled Cymru o ganlyniad i hynny. Mae hyn yn bwysig i'r sector twristiaeth ac i ffermwyr, y mae nifer ohonynt yn dibynnu ar ymwelwyr am ran o'u hincwm. Mae gwersi yma hefyd i ni eu dysgu ar gyfer gweithredu Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

### Integreiddio Cymorth ar gyfer Ynni Adnewyddadwy i'r System Gynllunio

**C29 Helen Mary Jones:** Pa gamau all y Gweinidog eu cymryd i sicrhau bod cymorth ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy wedi'i integreiddio i'r system gynllunio? (OAQ11627) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adolygu'r Broses Apeliadau Cynllunio**

**C30 Delyth Evans:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu proses apeliadau cynllunio y Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn cyflymu'r broses? (OAQ11609)

**Sue Essex:** Yr wyf yn ymwybodol o bryderon ynghylch yr amser a gymerir i alw ceisiadau cynllunio ac apeliadau cyn llunio i mewn. Yr ydym wedi adolygu ein proses galw-i-mewn a chyn bo hir, byddwn yn ymgynghori ar gynigion i'w newid. Ar hyn o bryd, yr wyf yn adolygu ein proses ar gyfer archwilio datganiadau amgylcheddol i sicrhau y caiff y rhain eu trin mor effeithlon â phosibl. Yr wyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Arolygiaeth Gynllunio i drafod targedau ar gyfer cyflawni. Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi adolygu'r broses benderfynu, gan gynnwys pwyllgorau penderfynu ar gynllunio, a chyflwynir newidiadau i Reolau Sefydlog cyn bo hir i gyflymu'r broses honno.